

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Practis Grŵp Meddygol
Aberhonddu, Tŷ Henry Vaughan,
Stryd y Bont,
Llan-faes, Aberhonddu, Powys,
LD3 8AH,

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill
2017

Dyddiad cyhoeddi: 21 Gorffennaf
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf?.....	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	25
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd a'u profiadau yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: rydym yn agored ac yn onest yn y modd yr ydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithrediadol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur yn ein dull.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Darparu safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a ganfyddwn i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â rhybudd o Bractis Grŵp Meddygol Aberhonddu, Tŷ Henry Vaughan, Stryd y Bont, Llanfaes, Aberhonddu, Powys, LD3 8AH, o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 20 Ebrill 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis, ac adolygydd lleyg.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau meddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, roedd Practis Grŵp Meddygol Aberhonddu, a leolir yn Tŷ Henry Vaughan, yn rhoi cryn bwyslais ar sicrhau ansawdd a diogelwch ledled y gwasanaethau a ddarperir i gleifion yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Gwnaethom arsylwi ar staff cwrtais a phroffesiynol yn siarad mewn modd urddasol â chleifion, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Gall cleifion fod yn sicr bod y practis yn cael ei redeg yn dda. Roedd y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Roedd strwythur arweinyddiaeth clir ar waith hefyd, ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-aelodau o'r tîm.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y practis yn darparu amgylchedd braf a chyfforddus i gleifion gael eu gweld gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd.
- Roedd y cleifion yn canu clodydd y staff caredig, cwrtais a gofalgar.
- Roedd y practis yn darparu amrediad da o adnoddau iechyd ac addysgol yn y man aros.
- Roedd y staff yn rhagweithiol ac yn frwdfrydig wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal i gleifion.
- Roedd y practis yn darparu amrediad da o wasanaethau iechyd i'r boblogaeth leol.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid sicrhau bod y cleifion yn gallu cael trafodaethau preifat i ffwrdd o'r dderbynfa / man aros pe baent yn dymuno gwneud.
- Dylai'r practis sicrhau bod holl staff y dderbynfa a'r staff clinigol yn gallu defnyddio'r system dolen sain.
- Nodwyd gwelliannau mewn perthynas â'r defnydd o adnoddau / darpariaethau'r iaith Gymraeg.

- Rhaid cofnodi tymheredd ystafell y ddosbarthfa feddyginiaeth yn ddyddiol.
- Dylid gwella'r arferion ar gyfer dogfennu ymgynghoriadau cleifion a ymgwymerir gan feddygon teulu.
- Mae angen gwerthuso'n ofalus a gwella'r gwaith o reoli galwadau ffôn yn ystod amser cinio.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Meddygol Aberhonddu yn darparu gwasanaethau ar gyfer oddeutu 15,000 o gleifion yn Aberhonddu a'r ardal wledig amgylchynol. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Roedd y practis yn cyflogi tîm staff mawr a oedd yn cynnwys 13 meddyg teulu (yr oedd tri ohonynt yn gyflogedig), wyth prif nyrs practis, dau weithiwr cymorth gofal iechyd, un gwaedydd, pum dosbarthwr, tri ysgrifennydd, 15 staff cofnodion meddygol, tri staff gweinyddol a dau reolwr.

Roedd y practis yn darparu amrediad o wasanaethau, gan gynnwys:

- Rhoi'r gorau i ysmegu
- Cynghori ar iechyd meddwl
- Gwasanaethau ymwelwyr iechyd
- Rheoli afiechydon cronig gan gynnwys cyflyrau resbiradol a chardiofaswlar, a diabetes
- Gofal briwiau
- Cyngor a brechiadau teithio
- Iechyd menywod
- Gwrthgeulo
- Fflebotomi
- Mân lawdriniaethau
- Mynediad uniongyrchol at ffisiotherapydd

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle bo'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn fodlon ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Gwnaeth y cleifion ganmol y gofal a'r driniaeth a ddarperir gan y staff. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan staff a oedd yn gwrtais a chyfeillgar.

Roedd amgylchedd y practis o safon dda, gyda digon o seddi a lle ar gael i gleifion â phroblemau symudedd. Roedd gwefan y practis yn safonol. Er enghraifft, roedd gwybodaeth werthfawr ar gael yn rhydd, megis y gwasanaethau a ddarperir yn y practis, dulliau cysylltu â'r practis a manylion cyswllt y tu allan i oriau, dulliau trefnu apwyntiadau, siarter y cleifion a threfniadau archebu presgripsiynau amlroddadwy, i enwi ond ychydig.

Roedd gan y practis systemau ar waith i alluogi cleifion i leisio pryderon/cwynion ac i ddarparu adborth ar y gwasanaethau a ddarperir.

Fel rhan o weithgarwch yr arolygiad, rhyddhawyd holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 12 holiadur ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

Mae popeth am feddygfa Aberhonddu'n dda

Mae cael apwyntiad yma bob amser i'w weld yn gymharol hawdd

Mae'r staff bob amser yn ddymunol a pharod eu cymwynas

Cadw'n iach

Roedd gan y practis amrediad da o adnoddau hybu iechyd ac addysgol ar gael yn rhydd yn y man aros. Roedd gwybodaeth gysylltiedig â phynciau megis rhoi'r gorau i ysmegu a bwyta'n iach yn cael eu hyrwyddo.

Roedd y practis yn gweithredu rownd ward rhithwir yn wythnosol.¹ Roedd systemau ffurfiol ar waith i gefnogi gweithio amlddisgyblaethol gyda gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ardal. Roedd cysyniad y ward rithwir yn cael ei ddefnyddio fel modd o leihau derbyniadau cleifion i'r ysbyty trwy reoli anghenion meddygol a gofal cleifion yn ddiogel yn y gymuned. Hefyd, gwnaeth amlygu cleifion mewn perygl o orfod cael eu derbyn yn yr ysbyty, a gwnaeth alluogi'r practis i gyflwyno mwy o wasanaethau a darpariaethau gofal i'w cyflenwi yng nghartrefi'r cleifion.

Roedd y practis yn aelod gweithgar o grŵp clwstr² de Powys. Roedd y grŵp hwn yn galluogi'r practisau i gynnal trafodaethau rheolaidd ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir a hybu arfer gorau. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn galluogi'r aelodau i gynllunio ar gyfer y dyfodol a datblygu gwasanaethau newydd a dyfeisgar i ddiwallu anghenion y cleifion yn ardal de Powys.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o gyfarfodydd staff mewnol a oedd yn galluogi'r practis i werthuso darpariaeth bresennol y gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gofynion y gwasanaeth yn y dyfodol.

Gofal ag urddas

Roedd gan y practis dderbynfa fawr a oedd wedi'i lleoli yn yr ystafell aros. Roedd y cleifion a oedd yn mewngofnodi wrth ddesg y dderbynfa'n cael eu cynghori i giwio o fan penodol er mwyn hyrwyddo cyfrinachedd y cleifion oedd yn siarad â staff y dderbynfa. Roedd desg lefel isel ar gael hefyd i gleifion â llai o symudedd. Dywedwyd wrthym y byddai ystafell ar gael pe bai cleifion yn dymuno trafod materion yn breifat. Nid oedd y wybodaeth hon ar gael yn

¹ Mae wardiau rhithwir yn defnyddio systemau a staffio ward ysbyty, ond heb yr adeilad ffisegol. Eu nod yw lleihau arosiadau mewn ysbytai trwy reoli achosion yn amlddisgyblaethol i gleifion yn eu cartref.

² Mae bwrdd iechyd lleol unigol yn cyfod meddygon teulu a phractisau lleol i greu 'clwstr' meddygon teulu. Mae meddygon teulu yn y clystyrau'n chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith parhaus rhwydwaith (iechyd) ardal er budd cleifion.

ysgrifenedig yn ardal y dderbynfa ac, o'r herwydd, ni fyddai'r cleifion yn ymwybodol o'r ddarpariaeth hon. Cynghorwyd y practis felly bod angen hysbysu'r cleifion am y ddarpariaeth hon. Roedd drysau ystafelloedd triniaeth ac ymgynghori yn cael eu cadw ar gau pan oedd staff yn gweini ar gleifion. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff yn cymryd camau priodol i gynnal urddas a chyfrinachedd cleifion yn ystod ymgynghoriadau. Roedd gan ystafell driniaeth yn y practis ddau wely yn yr un ystafell, ac roedd y rhain yn cael eu gwahanu gan len. Cododd hyn bryderon o ran preifatrwydd ac urddas cleifion pe bai'r ddau wely'n cael eu defnyddio ar yr un pryd. Dywedwyd wrthym y rhoddwyd hyn ar waith rai blynyddoedd yn gynharach am fod posibilrwydd y byddai'r uned mân anafiadau leol yn cau ac roedd cred wirioneddol y byddai nifer y cleifion sy'n mynychu'r practis yn codi. Fodd bynnag, rhaid i'r practis werthuso'r elfen hon o ddarpariaeth y gwasanaeth er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas yr holl gleifion ar bob adeg.

Roedd copi o'r polisi hebryngwyr ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori a archwiliwyd fel rhan o'r arolygiad. Roedd y cleifion yn gallu gofyn am weld meddyg gwrywaidd neu fenywaidd hefyd, ond roedd hyn yn ddibynnol ar argaeledd y meddygon teulu ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Pan oedd rhywedd y meddyg teulu'n wahanol i'r hynny a geisiwyd, byddai hebryngwr yn cael ei ddarparu. Roedd yr holl nyrsys cymwys, y staff cymorth gofal iechyd, a rhai o'r staff gweinyddol a oedd wedi derbyn hyfforddiant addas yn darparu'r gwasanaeth hebryngwyr.

Yn ystod cyfnod sesiynau'r bore a'r prynhawn, roedd galwadau ffôn a dderbyniwyd yn allanol yn cael eu hateb yn swyddfa'r staff, a oedd ar y llawr cyntaf. Roedd yr ystafell yn cynnal cyfrinachedd cleifion am nad oedd unrhyw gleifion yn gallu cael mynediad at yr ardal. Yn ystod cyfnod amser cinio, fodd bynnag, nodwyd bod yr holl ymholiadau ffôn yn cael eu trosglwyddo i ddesg y brif dderbynfa, a oedd yn yr ystafell aros. Trwy gydol amser cinio, roedd ardal y dderbynfa'n derbyn llif cyson o gleifion yn dod yn bersonol i'r practis ag ymholiadau. Bu'n rhaid i rai o'r cleifion a oedd yn mynd i ddesg y dderbynfa aros peth amser er mwyn i staff y dderbynfa orffen eu hymholiadau ffôn. Nid oedd yr elfen hon o reoli cyfathrebu yn darparu preifatrwydd a chyfrinachedd digonol i gleifion, am ei bod yn hawdd clywed y sgysiau ffôn. Rhaid i'r practis adolygu'r elfen hon o'i arferion rheoli cyfathrebu, felly, er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion a gwella cyfrinachedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol y gallant gynnal trafodaethau cyfrinachol â staff y dderbynfa mewn ystafell i ffwrdd o ardal y dderbynfa, yn unol â'u dymuniadau.

Rhaid i'r practis hysbysu AGIC sut y mae'n bwriadu sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion sy'n defnyddio'r ystafell driniaeth.

Rhaid i'r practis werthuso'r weithdrefn amser cinio gyfredol, lle mae'r holl alwadau ffôn sy'n dod i mewn yn cael eu derbyn wrth ddesg y brif dderbynfa.

Gwybodaeth i gleifion

Ar y cyfan, roedd arlwy da o wybodaeth ar gael yn y man aros i gynghori a chefnogi'r cleifion i ofalu am eu hiechyd a lles eu hunain. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael mewn perthynas â sefydliadau (gwirfoddol) lleol a chenedlaethol y trydydd sector, a grwpiau hunangymorth sydd ar gael i ddarparu cymorth. Roedd rhai o'r taflenni ar gael yn cynnwys gwybodaeth am ofal dementia, gwasanaeth cyswllt gofal llygaid, cadw'n iach heb wrthfotigau, doeth am fwyd, cam-drin domestig, gofal y galon, clefyd Parkinson a Chyngor Iechyd Cymuned Powys. Yn ogystal, roedd bwrdd penodedig i ofalwyr, a oedd yn amlygu sefydliadau cymorth ar gael i ofalwyr. Roedd rhai o'r posteri yn y man aros wedi'u hargraffu mewn print bras i gynorthwyo cleifion â golwg gwan neu ddiffygiol.

Roedd gan y practis hysbysfwrdd electronig a oedd yn hysbysu'r cleifion am fynychu eu hapwyntiad gyda'r clinigydd ac roedd yn cynnwys gwybodaeth dreigl ychwanegol am y practis a deunydd hybu iechyd / addysgol.

Roedd y practis wedi datblygu [gwefan](#) addysgiadol, hawdd ei defnyddio, a oedd yn darparu gwybodaeth ac adnoddau i gleifion megis oriau agor, staffio, presgripsiynau amlroddadwy, a sut i gwyno, i enwi ond ychydig.

Dywedwyd wrthym yn ystod yr arolygiad y gellid gwneud cais am gyfieithwyr ar y pryd pe bai'r cleifion a/neu'r clinigydd eu hangen.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y practis hysbysiadau gweladwy yn y man aros a oedd yn hyrwyddo'r system dolen sain a oedd ar gael. Yn anffodus, nid oedd staff y dderbynfa'n gwybod sut i ddefnyddio'r system, a oedd yn golygu na fyddai cleifion ag anawsterau clyw wedi gallu defnyddio'r adnodd pwysig hwn.

Roedd gan y practis beiriant hunan-fewngofnodi electronig. Yr ieithoedd a ddefnyddiwyd oedd y Gymraeg, y Saesneg, a'r Nepaleg. Roedd y Nepaleg yn cael ei defnyddio am fod nifer o Gyrcas wedi'u lleoli yn Aberhonddu.

Roedd gan y practis amrediad o ddulliau i hybu cyfathrebu effeithiol rhwng y staff. Roedd hyn yn cynnwys nodiadau slot/negeseuon sydyn ar gyfer materion brys, ac roedd materion difrys yn cael eu dosbarthu trwy'r system dasgau electronig.

Dywedwyd wrthym fod oddeutu wyth o ymweliadau cartref yn cael eu cynnal bob dydd. Roedd llythyrau clinigol a oedd yn dod i mewn yn cael eu clustnodi i'r meddygon dyletswydd ac yn cael eu rhannu'n gyfartal rhyngddynt. Roedd y practis yn gweithredu system gyfeillio anffurfiol hefyd ar gyfer meddygon teulu, sy'n golygu pe bai meddyg teulu i fwrdd o'r gwaith y byddai'r cyfaill yn adolygu unrhyw wybodaeth megis canlyniadau profion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r holl staff clinigol a staff y dderbynfa arddangos hyddysgedd yn y defnydd o'r system dolen sain.

Gofal amserol

Roedd gwybodaeth ar gael yn rhydd ac mewn sawl man roedd cyfeiriadau at oriau agor y practis. Roedd y practis ar agor rhwng 8.15am a 6.30pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau dros y ffôn, ar-lein trwy borth [Fy lechyd Ar-lein](#), neu'n bersonol yn y dderbynfa. Gwnaeth y practis geisio trefnu apwyntiadau ar gyfer cleifion â'r meddyg teulu o'u dewis pe bai'n bosibl. Roedd sesiwn ymgynghori brys yn cael ei chynnal yn y practis bob bore rhwng 9am a 10am. Byddai cleifion ag angen meddygol yn cael eu gweld ar y dydd pe bai angen. Ar gyfartaledd, roedd y practis yn gweld 40 o gleifion brys yn ddyddiol. Gellid trefnu apwyntiadau bedair wythnos ymlaen llaw.

Roedd gwybodaeth gyswllt mewn perthynas â darpariaeth y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi'i harddangos yn glir yn y practis, yn nhaflen y practis ac ar wefan y practis. Roedd 'Shropdoc' yn darparu'r holl wasanaeth y tu allan i oriau ar gyfer y practis.

Gellid archebu presgripsiynau amlroddadwy trwy ddefnyddio un o'r dulliau canlynol: ar-lein, yn bersonol yn y fferyllfa, trwy'r post neu drwy ffacs. Nid oedd ceisiadau dros y ffôn am bresgripsiynau amlroddadwy yn cael eu derbyn. Hysbyswyd y cleifion bod angen rhoi o leiaf 48 awr o rybudd cyn casglu eu

presgripsiynau amlroddadwy. Roedd gan y practis bolisi hefyd o beidio â rhoi mwy na gwerth un mis o feddyginiaeth ar y tro.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Ceid mynediad i'r practis trwy ddrysau electronig, a oedd yn arbennig o fuddiol ar gyfer cleifion â symudedd cyfyngedig neu ddiffyg symudedd. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth i gyd ar y llawr daear. Roedd cyfleusterau parcio ar gael wrth flaen ac ochr y practis. Roedd rhywfaint o fannau parcio anabl ar gael hefyd.

Roedd y practis yn ymgymryd ag adolygiadau blynyddol o gleifion y nodwyd eu bod yn agored i niwed, megis cleifion ag anawsterau dysgu. Roedd y practis yn darparu gwasanaeth uwch ar gyfer cartrefi gofal lleol, a oedd yn cynnwys meddyg teulu yn ymweld â chartrefi gofal i adolygu anghenion cleifion ac ateb unrhyw ymholiadau ynghylch eu gofal a llesiant yn wythnosol.

Hawliau pobl

Dywedodd cleifion wrthym fod teulu a/neu ffrindiau yn cael mynychu'r ymgynghoriad â nhw, pe baent yn dymuno hynny. Dywedwyd wrthym fod dau o'r meddygon teulu yn siarad Cymraeg yn rhugl. Fodd bynnag, gwelwyd bod ychydig iawn o adnoddau Cymraeg ar gael yn y man aros. Rhaid i'r practis wella ei ddarpariaeth iaith Gymraeg a sicrhau bod gwybodaeth yn yr iaith Gymraeg ar gael yn rhydd yn y practis.

Roedd y practis wedi datblygu ei siarter cleifion ei hun, a oedd yn amlinellu'r hyn y gallai'r cleifion ei ddisgwyl o'r gwasanaeth a ddarperir, a'r hyn yr oedd y practis yn ei ddisgwyl ar ran y cleifion. Roedd yn cynnwys: cyfrinachedd llwyr ar bob amser, byddai unrhyw achosion o gam-drin staff neu eiddo yn cael eu cymryd o ddifrif, gellid gofyn i gleifion adael y practis os bydd y berthynas rhwng y claf a'r meddyg wedi chwalu neu os bydd y claf wedi symud i ffwrdd o ardal y practis. Gallai'r cleifion ddisgwyl triniaeth ddi-oed a chwrtais ar amser eu hapwyntiad, oni bai bod oedi wedi'i achosi gan argyfyngau meddygol. Gallai'r cleifion gael mynediad at eu cofnodion meddygol o fewn cyfyngiadau'r gyfraith; byddai'r practis yn darparu ymchwiliadau ymatebol a diduedd o bryderon/cwynion dilys.

Roedd gwybodaeth hefyd wedi'i chynnwys mewn perthynas â'r hyn yr oedd y practis yn ei ddisgwyl gan gleifion. Roedd yn cynnwys hysbysu'r practis pe bai cleifion yn methu mynychu eu hapwyntiad penodedig â'r meddyg neu nyrs

arbenigol. Roedd y siarter cleifion hefyd yn nodi na ddylai cleifion ofyn i feddygon teulu weld mwy nag un unigolyn yn ystod eu hapwyntiad.

Cafodd y staff eu hysbysu yn ystod eu proses sefydlu am y polisi cyfrinachedd ar waith yn y practis. Roedd y polisi hefyd yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol a sut y gall y staff eu defnyddio mewn modd derbyniol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg yn cael yr un pwys a lefel o sylw â'r Saesneg.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaethom nodi bod blwch awgrymiadau a sylwadau ar gael yn y dderbynfa/man aros yn y practis. Nodwyd bod y practis yn adolygu'r holl adborth ac yn gweithredu yn ei gylch mewn modd rhagweithiol pan fo'n briodol. Argymhellwyd bod y practis yn darparu adborth ffurfiol ar gyfer yr holl gleifion ynghylch y sylwadau ac adborth a dderbynnir, ac yn nodi pa gamau sydd wedi'u rhoi ar waith os yn briodol, mewn modd ffurfiol ac adeiladol. Roedd taflen a gwefan y practis yn darparu gwybodaeth i gleifion am y dulliau o roi adborth i'r practis ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael mewn perthynas â'r broses i'w dilyn er mwyn lleisio pryder / cwyn. Roedd amserlenni wedi'u cynnwys hefyd i hysbysu'r cleifion o'r dyddiad y disgwylir y byddai'r practis yn ateb eu cwyn.

Yn ogystal, roedd taflenni 'Gweithio i Wella' ar gael yn y man aros, ynghyd â gwybodaeth yn ymwneud â Chyngor Iechyd Cymuned Powys ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gellid cysylltu â'r ddau sefydliad hyn hefyd i drafod unrhyw bryderon/cwynion. Edrychwyd ar gofnod o'r holl gŵynion yn y practis a chanfuwyd ei fod yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a chanlyniadau'r cwynion a dderbyniwyd. Nodwyd bod y practis yn ceisio ateb yr holl gŵynion/pryderon cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Nodwyd y gallai'r practis roi llythyr cydnabod/ateb dros dro safonol i'r holl achwynyddion a chynnwys copi o'r polisi cwynion gyda'r llythyr er mwyn sicrhau tryloywder a galluogi achwynwyr i fod yn dra hyddysg ynghylch y broses y byddai'r practis yn ei dilyn.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban hefyd. Roedd y polisi'n cynnwys gwybodaeth werthfawr, a oedd yn hysbysu'r chwythwr chwiban am y modd y byddai'r wybodaeth a ddatgelwyd yn cael ei thrin, a beth i'w ddisgwyl. Roedd

gwybodaeth hefyd wedi'i chynnwys yn y polisi cysylltiedig â diogelu ac roedd manylion cyswllt Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ynddo a manylion yr elusen 'Public Concerns at Work'.

Adnodd ychwanegol a ddefnyddiodd y practis i gael adborth gan gleifion oedd ei Grŵp Cyfranogiad Cleifion. Roedd y Grŵp Cyfranogiad Cleifion yn cwrdd yn flynyddol i drafod problemau sy'n effeithio ar gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r practis. Gellid anfon unrhyw broblemau ymlaen at gadeirydd y Grŵp Cyfranogiad Cleifion i'w hystyried.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis ddatblygu system o ddarparu adborth ffurfiol ar gyfer holl gleifion y practis mewn perthynas â sylwadau/awgrymiadau a dderbyniwyd a'r camau a gyflenwyd o ganlyniad i'r adborth a dderbyniwyd.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Roedd systemau cyfathrebu da rhwng y staff, a oedd yn sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei rhannu'n gyflym â'r sawl oedd ei hangen.

Roedd trefniadau ar waith i gynnal gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd o'r adeilad er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal i safon dda er lles y cleifion a'r staff.

Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â dogfennau mewn cofnodion cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd gan y practis systemau a allai gael eu rhoi ar waith petai unrhyw risg yn cael ei nodi, h.y. adrodd gwallau a phroblemau â'r adeilad. Roedd gan y practis gynllun parhad ar waith a oedd yn nodi risgiau partneriaeth busnes ac yn cynnwys gwybodaeth megis cynlluniau wrth gefn ar gyfer absenoldebau staff tymor hir.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y practis yn rhagweithiol o fewn clwstwr lleol de Powys. O ganlyniad i'r gweithio cydweithrediadol â phractisau lleol eraill, roedd gwasanaethau newydd wedi cael eu gweithredu megis mynediad uniongyrchol at ffisiotherapydd. Roedd y drefn newydd hon yn galluogi cleifion i gael eu gweld yn uniongyrchol gan ffisiotherapydd heb yr angen am atgyfeiriad gan weithiwr proffesiynol iechyd.

Roedd yr holl staff newydd a gyflogwyd gan y practis yn derbyn cyfnod sefydlu cynhwysfawr ac roedd hwn yn cynnwys rhaglen sefydlu ffurfiol. Edrychwyd ar y rhaglen sefydlu ysgrifenedig ac roedd i'w gweld yn cynnwys gwybodaeth

berthnasol ac addysgiadol ar gyfer aelodau newydd o'r staff, a fyddai'n eu helpu wrth iddynt ymgysguo â'u rôl newydd.

Atal a rheoli heintiau

Roedd yr holl fannau a ddefnyddir gan gleifion ar un lefel ac yn hawdd mynd atynt. Roedd toiledau, gan gynnwys toiledau i bobl ag anabledd, a chyfleusterau newid babanod ar gael yn y practis. Roedd yr holl doiledau i gleifion a welwyd yn lân a hylan. Roedd y practis hefyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd o lendid y toiledau. Roedd y man aros cyfan a'r ystafelloedd ymgynghori'n lân iawn, ac ni nodwyd unrhyw broblemau rheoli heintiau. Roedd gan yr holl ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth sinciau golchi dwylo a chyfarpar diogelu personol megis menig, ac roedd yr holl flychau offer miniog wedi'u storio'n briodol. Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ar waith ac roedd y staff y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o sut i gael gafael arno. Roedd nyrsys cymwysedig yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn y practis, ac roeddent yn gyfrifol am lanhau'r trolïau cyn ac ar ôl gweithdrefnau clinigol.

Dangosodd cofnodion hyfforddiant y staff nad oedd rhai o'r staff wedi derbyn hyfforddiant rheoli heintiau'n rheolaidd. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl nyrsys/staff cymorth gofal iechyd yn derbyn hyfforddiant atal a rheoli heintiau'n brydlon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff priodol yn derbyn hyfforddiant atal a rheoli heintiau'n brydlon.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y practis yn bractis â'i fferyllfa ei hun. Roedd meini prawf ffurfiol ar waith i nodi pwy fyddai'n gymwys i ddefnyddio gwasanaethau'r fferyllfa. Roedd y gwasanaeth ar gael i'r holl gleifion a oedd yn byw mwy na milltir o ganol Aberhonddu ac ystyriwyd (gan Lywodraeth Cymru) eu bod yn byw mewn ardal wledig.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y fferyllfa a nodi ei bod wedi'i threfnu'n dda a'i chyflenwi'n ddigonol. Roedd gwiriadau dyddiol mewn perthynas â thymheredd yr oergell yn cael eu cynnal, ond nodwyd nad oedd

tymheredd yr ystafell yn cael ei gofnodi. Nodwyd ar ddiwrnod yr arolygiad bod yr ystafell yn gynnes. Mae'n rhaid i rai meddyginiaethau gael eu storio islaw 25°C am fod perygl y gallent ddirywio os bydd y tymheredd yn mynd y tu hwnt i'r lefel honno. O'r herwydd, rhaid i'r practis monitro tymheredd yr ystafell yn ddyddiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod ystafelloedd a ddefnyddir i storio meddyginiaeth yn cael eu gwirio'n ddyddiol er mwyn sicrhau nad yw'r tymheredd yn mynd yn uwch na 25°C.

Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Roedd gan y practis feddyg teulu dynodedig a oedd yn gweithredu fel yr arweinydd amddiffyn plant. Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Roedd y feddalwedd yr oedd y practis yn ei defnyddio yn galluogi 'fflagiau electronig' i gael eu cysylltu wrth gofnodion plant oedd ar y 'gofrestr mewn perygl'. Roedd y system hefyd yn galluogi plant a oedd yn derbyn gofal i gael eu hadnabod yn eglur. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant Lefel 3 mewn amddiffyn plant. Roedd staff nad oeddent yn dod i gyswllt uniongyrchol â phlant fel rhan o'u dyletswyddau gwaith wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1 mewn amddiffyn plant. Roedd siartiau llif ar gael yn y practis mewn perthynas â'r prosesau i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon ynglŷn â lles yn cael eu nodi mewn perthynas â phlentyn neu oedolyn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau'r practis wedi'u storio'n electronig ac ar bapur. Dywedwyd wrthym gan y staff fod ganddynt fynediad at fannau perthnasol o'r system gyfrifiadur i weld y polisiau a gweithdrefnau hyn. Nodwyd bod adolygiadau rhai polisiau'n hwyr. Dylai'r practis adolygu'n systematig yr holl bolisiau a gweithdrefnau ac ymgymryd ag adolygiad, fel y nodwyd yn y ddogfen, mewn modd amserol.

Roedd y practis yn sicrhau bod rhybuddion diogelwch cleifion perthnasol yn cael eu cylchredeg i aelodau'r tîm staff mewn da bryd trwy e-bostio staff

perthnasol a chynnal trafodaethau yn ystod cyfarfodydd y practis. Roedd yr holl ddigwyddiadau arwyddocaol yn cael eu dadansoddi a'u trafod yn ystod cyfarfodydd misol rheolaidd y clinigwyr. Roedd yr holl ddigwyddiadau difrifol yn cael eu cofnodi'n llawn a'u storio'n ddiogel ar y system gyfrifiadur. Roedd cyfarfodydd penodol y tîm nyrsio hefyd yn cael eu cynnal yn y practis. Dywedwyd wrthym am rai o'r problemau a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn. Roedd y cyfarfodydd yn caniatáu i wybodaeth gael ei dosbarthu ymhlith yr holl staff nyrsio/cymorth gofal iechyd mewn perthynas â'u harferion cyfredol ac yn y dyfodol. Argymhellwyd bod cofnodion ffurfiol y cyfarfodydd hynny yn cael eu cofnodi er mwyn galluogi llwybr archwilio clir a hyrwyddo tryloywder. Dylid rhoi copi o'r cofnodion wedi hynny i holl aelodau'r tîm nyrsio a gofal iechyd.

Roedd staff y practis yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r diweddaraf o ran arfer gorau trwy fynychu cyfarfodydd clwstwr, mynychu sesiynau hyfforddi/dysgu wedi'u diogelu, rhwydweithio, a darllen cyfnodolion proffesiynol. Byddai arfer gorau a chanllawiau clinigol newydd yn cael eu cylchredeg ymhlith aelodau perthnasol o'r staff trwy femos, hysbysfwrdd y staff a thrwy e-bost.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu yn unol â'r amserlenni dynodedig a nodwyd ym mhob dogfen benodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd y practis yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a datblygu. Roedd y staff yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant a fyddai o fudd i'w datblygiad proffesiynol ac yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Roedd y practis yn weithredol yng ngrŵp clwstwr lleol de Powys, ac yn ystod cyfarfodydd rheolaidd roedd arfer gorau ac arloesiadau newydd yn cael eu trafod. Roedd y practis wrthi'n datblygu gwasanaeth testun dros y ffôn newydd, a oedd yn atgoffa'r cleifion am apwyntiadau a materion eraill cysylltiedig ag iechyd.

Cadw cofnodion

Yn ystod yr arolygiad, adolygwyd cynnwys hapsampl o 21 o gofnodion cleifion. Nodwyd bod safon y cofnodion yn gyffredinol ddigonol, ond nodwyd gwelliannau i'w gwneud. Y benodol, nid oedd gan gofnodion chwech o'r cleifion ddiagnosis cynhwysfawr wedi'i ddogfennu; nid oedd saith o'r cofnodion yn cynnwys cynllun wedi'i ddogfennu. Dywedwyd wrth y practis y gallai cadw cofnodion annigonol o ymgynghoriadau gael effaith negyddol ar gleifion, yn arbennig pe bai clinigydd newydd yn cynnal ymgynghoriad â chlaf heb fod yr

holl wybodaeth berthnasol a hanesyddol ar gael iddo. Yn ogystal, nodwyd bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â dogfennu problemau cod Read.³ Nid oedd deg o'r cofnodion cleifion a welwyd yn cynnwys cod Read y diagnosis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ymgynghoriadau meddygon teulu â chleifion yn cael eu dogfennu yng nghofnodion y cleifion mewn modd cynhwysfawr a chadarn.

³ Mae codau Read yn darparu geirfa safonol y gall clinigwyr ei defnyddio i gofnodi canfyddiadau a gweithdrefnau cleifion ar systemau meddalwedd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom ystyried hefyd sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda gan reolwyr y practis a'r meddygon teulu, a oedd yn goruchwyllo tîm staff hapus a chydlynol. Roedd y tîm staff wedi hen ymsefydlu ac yn hyderus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn y sefydliad. Dangosodd y staff ymroddiad clir i ddarparu'r gofal a thriniaeth orau posibl ar gyfer eu cleifion.

Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn ystod ein hymweliad arolygu, gwnaethom siarad â nifer o staff sy'n gweithio mewn gwahanol rolau yn y practis, a siaradodd yr holl staff â pharch am yr arweinyddiaeth a ddarperir gan reolwyr y practis a'r meddygon teulu. Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn gallu trafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder â'r rheolwyr.

Roedd gan y practis reolwr adnoddau dynol a oedd yn darparu amrediad cynhwysfawr o wasanaethau adnoddau dynol ar gyfer y practis. Gwelsom fod cofnodion y staff yn cael eu cynnal i safon dda. Trafodwyd y broses o recriwtio staff ac roedd hyn yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ôl y gofyn i ganfod addasrwydd unigolyn i weithio gyda chleifion.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom dystiolaeth o dîm staff hapus a chydlynol, ac roedd llawer ohonynt wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer. Canfuom fod y staff yn gwybod yn union beth oedd disgwyl iddynt ei wneud, ac roeddent yn hyderus ynglŷn â'r amrywiaeth o gyfrifoldebau a thasgau yr oedd gofyn iddynt eu cwblhau.

Cydnabuwyd bod y staff yn cael eu cefnogi i fynychu cyrsiau perthnasol sy'n briodol i'w swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Roedd yr holl staff nyrsio wedi derbyn arfarniad blynyddol. Nodwyd nad oedd rhai o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn asesiad risg cyfarpar sgrin arddangos. Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff sy'n defnyddio cyfrifiadur yn cydymffurfio'n rheolaidd â rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol.

Gwnaethom siarad â thair o brif nyrsys y practis ynglŷn â'r trefniadau i gwblhau proses ail-ddilysu⁴ ofynnol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac roeddem yn fodlon eu bod yn derbyn digon o gefnogaeth yn hyn o beth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae gofyn i'r gwasanaeth ddisgrifio'r camau sydd i'w cymryd er mwyn rhoi sylw i ddiffyg asesiadau risg iechyd a diogelwch (cyfarpar sgrin arddangos) ar gyfer staff.

⁴ Ailddilysu yw'r broses y mae angen i bob nyrs a bydwraig ei chwblhau er mwyn adnewyddu eu cofrestrriad â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae ein harolygiadau o bractisau meddygon teulu fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Bydd practisau meddygon teulu yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant yn weithredol ac yn strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau meddygon teulu yn diwallu [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill, fel y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Mae manylion pellach am y modd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar gael ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y datryswyd y pryder
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			
[]	[]	[]	[]

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Grŵp Meddygol Aberhonddu, Tŷ Henry Vaughan, Stryd y Bont, Llan-faes, Aberhonddu, Powys

Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith.				
[]	[]	[]	[]	[]

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Grŵp Meddygol Aberhonddu, Tŷ Henry Vaughan, Stryd y Bont, Llan-faes, Aberhonddu, Powys

Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol y gallant gael trafodaethau cyfrinachol â staff y dderbynfa mewn ystafell i ffwrdd o'r dderbynfa, yn unol â'u dymuniadau.	4.1 Gofal ag urddas	Bydd gwybodaeth ar gael i boblogaeth y practis i nodi pe bai claf yn dymuno siarad â rhywun am fater cyfrinachol y bydd mesurau'n cael eu cymryd i wneud felly mewn man tawel. Bydd hyfforddiant staff ar gael mewn perthynas â hyn, a bydd yn cael ei gynnwys yn y gweithdrefnau sefydlu. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi trwy ein: sgriniau WebMedia, gwefan/taflen y	Tîm Rheoli	Gorffennaf 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis hysbysu AGIC ynghylch y modd y mae'n bwriadu sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion sy'n defnyddio'r ystafell driniaeth.</p> <p>Rhaid i'r practis werthuso'r weithdrefn amser cinio gyfredol, lle mae'r holl alwadau ffôn sy'n dod i mewn yn cael eu derbyn wrth ddesg y brif dderbynfa.</p>		<p>practis.</p> <p>Bydd y practis yn ystyried adolygu'r mynediad at yr ardal glinigol. Ceir dewis adolygiad yn y system apwyntiadau gyfredol ac mae lle clinigol yn broblem ac yn peri anawsterau o ran darparu gofal ar wahân.</p> <p>Mae'r practis wedi gosod system cofnodi galwadau ffôn yn ddiweddar. Mae'r system hon yn galluogi'r practis i adolygu rhif a natur y galwadau yn ystod cyfnod amser cinio. Bydd hyn yn ein galluogi i fabwysiadu atebion priodol, a allai gynnwys adnoddau ychwanegol i alluogi galwadau i gael eu trin rhywle arall neu hyfforddiant pellach i sicrhau cyfrinachedd yn yr ardal honno.</p>	<p>Uwch-bartner</p> <p>Tîm Rheoli</p>	<p>Parhaus</p> <p>Medi 2017</p>
<p>Rhaid i'r holl staff clinigol a staff y dderbynfa arddangos hyddysgedd yn y defnydd o'r system</p>	<p>3.2 Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Bydd sesiynau ymwybyddiaeth hyfforddiant diweddaredig yn cael eu trefnu'n fewnol bob blwyddyn ar gyfer</p>	<p>Tîm Rheoli</p>	<p>Dysgu mewnol wedi'i</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dolen sain.		holl aelodau'r tîm gweinyddol, a fydd yn cynnwys medrusrwydd o ran defnyddio cyfarpar i gynorthwyo gwasanaethau cleifion.		ddiogelu – Mehefin 2017 Yn flynyddol wedi hynny.
Rhaid i'r practis sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn Gymraeg yn cael yr un pwys a lefel o sylw â'r Saesneg.	6.2 Hawliau pobl	Bydd y practis yn ymdrechu i geisio gwybodaeth mewn ieithoedd eraill i gynorthwyo gwasanaethau cyfeirio.	Tîm y Practis	Parhaus
Rhaid i'r practis ddatblygu system o ddarparu adborth ffurfiol ar gyfer holl gleifion y practis mewn perthynas â sylwadau/awgrymiadau a dderbyniwyd a'r camau a gyflenwyd o ganlyniad i'r adborth a dderbyniwyd.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Ar hyn o bryd, rhoddir atebion i unigolion yn uniongyrchol, lle y dyfernir ei fod yn briodol. Bydd y practis yn datblygu'r fath atebion fel y gallant gael eu darparu'n rheolaidd i unigolion ac yn dorfol lle bo'n briodol gan ddefnyddio'r sgriniau cyfryngau a osodwyd yn ddiweddar ym manau aros y practis, gwefan y practis a thrwy'r Grŵp Cyfranogiad Cleifion.	Tîm Rheoli	Parhaus
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff priodol yn derbyn hyfforddiant atal a rheoli heintiau'n	2.4 Atal a rheoli heintiau a	Rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol iechyd gofal a'r staff sy'n darparu gofal	Tîm Rheoli	Parhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
brydlon.	dadheintio	<p>clinigol gwblhau hyfforddiant Lefel 2 mewn atal heintiau trwy'r system e-ddysgu bob blwyddyn. Rhaid i'r holl staff nad ydynt yn glinigol gwblhau hyfforddiant Lefel 1 mewn atal heintiau trwy'r system e-ddysgu bob blwyddyn. Bydd y practis yn cymryd rhan hefyd mewn hyfforddiant a drefnir ar gyfer gofal sylfaenol trwy'r bwrdd iechyd lleol.</p> <p>Mae amserlen o'r hyfforddiant yn cael ei chynnal, a bydd yn cael ei monitro a chymerir camau i sicrhau bod hyfforddiant gofynnol yn gyfredol ar bob amser.</p>		
Rhaid i'r practis sicrhau bod ystafelloedd a ddefnyddir i storio meddyginiaeth yn cael eu gwirio'n ddyddiol er mwyn sicrhau nad yw'r tymheredd yn mynd yn uwch na 25°C.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mesurydd tymheredd yr ystafell wedi'i osod yn yr ystafell a bydd gweithdrefn weithredu safonol yn cael ei hysgrifennu gan y tîm i alluogi monitro ac archwilio.	Rheolwr Gweithredol	Gorffennaf 2017
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu yn unol â'r amserlenni dynodedig a nodwyd ym mhob dogfen benodol.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	<p>Mae'r tîm rheoli a'r meddygon teulu arweiniol wedi cytuno ar amserlen adolygiadau.</p> <p>Bydd portffolio cyflawn o bolisiau a gweithdrefnau ar gael yn ganolog ac yn</p>	Meddygon teulu sy'n bartneriaid, rheolwyr y practis ac arweinwyr tîm	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cael ei adolygu yn unol â'r amserlen ddynodedig.		
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ymgynghoriadau meddygon teulu â chleifion yn cael eu dogfennu yng nghofnodion y cleifion mewn modd cynhwysfawr a chadarn.	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r practis yn symud tuag at ddull mwy unfurf tuag at gadw cofnodion sy'n cael ei yrru gan dempled clinigol.	Meddygon teulu	Yn flynyddol
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae gofyn i'r gwasanaeth ddisgrifio'r camau sydd i'w cymryd er mwyn rhoi sylw i ddiffyg asesiadau risg iechyd a diogelwch (cyfarpar sgrin arddangos) ar gyfer staff.	7.1 Y gweithlu	Mae gofyn i'r holl gyflogeion newydd ymgymryd ag asesiad fel rhan o'u proses sefydlu. Bydd yr holl gyflogeion presennol yn cael asesiadau dilys erbyn 16 Mehefin. Bydd amserlen o'r asesiadau'n cael ei chynnal a'i diweddarau'n rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau iechyd a diogelwch.	Tîm Rheoli ac arweinwyr tîm	Mehefin 2017 ac yn flynyddol wedi hynny

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Denise McNamara

Swydd: Rheolwr y practis

Dyddiad: 16 Mehefin 2017